# Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion 2020/2021

Mae 105 o sefydliadau sy'n gyflenwyr a rhanddeiliaid yng Ngheredigion sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol ehangach.

## Rhanddeiliaid Allweddol

| Rhanddeiliad | Cwmpas |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Arweinydd |
| Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Corfforaethol | |
| Y Tîm Dysgu a Datblygu | Y ddarpariaeth Dysgu a Datblygu a ariennir gan y Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol |
| Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant | Darparwyr Gofal Cymdeithasol |
| Gwasanaethau Uniongyrchol | Defnyddwyr Gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd<br>Darparwyr Gofal Preswyl a Gofal Dydd |
| Tîm Diogelu Oedolion | Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr |
| Tîm Comisiynu a Chaffael | Darparwyr a gomisiynwyd |
| Tîm Iechyd a Diogelwch | |
| Hyfforddiant Ceredigion Training | |
| Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru | Integreiddio a chydweithio rhanbarthol |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | Integreiddio a chydweithio rhanbarthol |
| Coleg Ceredigion | Addysg Bellach ac Uwch |
| Y Drindod Dewi Sant | Addysg Bellach ac Uwch |
| Prifysgol Abertawe | Addysg Bellach ac Uwch |
| Coleg Sir Benfro | Addysg Bellach ac Uwch |
| Coleg Sir Gar | Addysg Bellach ac Uwch |
| Prifysgol Agored | Addysg Bellach ac Uwch |
| Darparwyr Gofal Cartref | Darparwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol |
| Darparwyr Gofal Preswyl | Darparwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol |
| Darparwyr Gwasanaethau Dydd | Darparwyr gofal |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) | Darparwyr gwirfoddol |

**Byddwn yn ymgysylltu â Rhanddeiliaid drwy wneud y canlynol:**

- Darparu cyngor dysgu a datblygu, nail ai'n bersonol dros y ffôn neu e-bost
- Cynnal cyfarfodydd darparwyr I ddarganfod eu hanghenion hyfforddi a datblygu
- Defnyddio Fforymau Darparwyr, Fforymau Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr, a digwyddiadau'r Bartneriaeth i rannu gwybodaeth a chanfod yr anghenion dysgu a datblygu
- Cynnal cyfathrebu dwy ffordd rheolaidd gyda phob rhanddeiliad allweddol
- Cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drefnu a hybu presenoldeb mewn digwyddiadau a chynadleddau rhanbarthol

**Ar gyfer staff Cyngor Sir Ceredigion:**

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi a dysgu a datblygu ar gael i staff Cyngor Ceredigion ei gweld ar y system Cerinet a gellir archebu lle yn uniongyrchol drwy'r system honno.

**Ar gyfer asiantaethau allanol, byddwn yn rhannu gwybodaeth drwy wneud y canlynol:**

- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael drwy dudalennau gwe Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Ceredigion (https://ceri.ceredigion.gov.uk/learning/cy/)
- Sicrhau bod yr wybodaeth ar y tudalennau gwe yn gyfredol
- Creu a rhannu cylchlythyr chwarterol y Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithas
- Creu dogfennau dwyieithog yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion
- Rhannu a gofyn am gwblhau gwybodaeth am ddata ynghylch y gweithlu
- Gofyn am wybodaeth flynyddol ynghylch anghenion hyfforddi
- Defnyddio rhestrau postio i rannu gwybodaeth ar e-bost ynghylch y cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael
- Gweithio gyda phartneriaid i gael mynediad at unrhyw sianeli cyfathrebu eraill sy'n addas

(Tîm Dysgu a Datblygu Cyngor Sir Ceredigion - Mawrth 2020)